

Tymor y Gwanwyn

Cyfnod Sylfaen a Blwyddyn 1 a 2

Thema: Tyfu a Synhwyrau

Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu

Yn ystod yr hanner tymor cyntaf byddwn yn edrych ar y stori 'Y Feipen Enfawr' ac ar ôl hanner tymor byddwn yn edrych ar y stori 'Hugan Fach Goch'. Bydd y plant yn dysgu'r storïau trwy fapio, dewis symudiadau ac ailadrodd. Ar ôl i'r plant dysgu'r storïau a deall iaith storïau byddwn yn dechrau datblygu sgiliau 'gwneud stori' ac ysgrifennu storïau.

Byddwn yn edrych ar sut i ffurfio llythrennau'n daclus ac yn gywir a datblygu'r sgiliau sy'n galluogi'r plant i wneud hyn. Byddwn yn gwneud hyn mewn gwahanol ffyrdd ymarferol, trwy beintio, defnyddio toes, rhubanau, tywod, tywod gwlyb, gemau ar y cyfrifiadur ac yn y blaen.

Datblygiad Mathemategol

Yn ystod y tymor byddwn yn edrych ar "Mesurau" a "Arian", yn ystod yr hanner tymor cyntaf bydd y plant yn edrych ar hyd, mas a chynhwysedd. Ar ôl hanner tymor bydd y plant yn edrych ar arian a datrys problemau.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Ein thema ni am yr hanner tymor cyntaf yw "Tyfu". Bydd y plant yn dysgu am blanhigion a dysgu sut i blannu, tyfu ac edrych ar ôl planhigion gan blannu a thyfu pethau yn yr ardd. Ar ôl hanner tymor byddwn yn edrych ar "Synhwyrau". Byddwn yn edrych ar bob un o'r synhwyrau a sut maen nhw'n gweithio.

Datblygiad Corfforol

Byddwn yn edrych ar sgiliau dawns tymor yma. Byddwn yn datblygu sgiliau cydsymud, sgiliau echddygol bras ac yn datblygu hyder. Bydd y plant yn dysgu sut i ddatblygu eu hymatebion i wahanol symbyliadau megis cerddoriaeth, lluniau, geiriau a syniadau a pherfformio symudiadau neu batrymau, gan gynnwys rhai sy'n perthyn i ddawnsiau gwerin Gymreig a dawnsiau o ddiwylliannau eraill.

Datblygiad Creadigol

Yn ystod y tymor yma byddwn yn canolbwyntio arno brintio ac argraffu a Dylunio a thechnoleg. Yn ystod yr hanner tymor cyntaf byddwn yn edrych arno brintio ac argraffu. Bydd y plant yn dysgu sut i ddefnyddio planhigion i greu prints. Ar ôl hanner tymor byddwn yn dechrau prosiect dylunio a thechnoleg.

Byddwn yn dysgu ystod o ganeuon newydd sy'n cyd-fynd a'r thema. Byddwn yn chwarae patrymau rhytmig a melodig syml ar amrywiaeth o offer. Byddwn yn paratoi ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi.

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth

Ddiwylliannol

Mae datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol yn datblygu ar draws yr holl feysydd dysgu wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu gwahanol. Bydd y plant yn dysgu amdanyn nhw eu hunain, deall sut i fod yn ffrind da i blant eraill, datblygu perthynas da gydag oedolion o fewn y teulu a'r tu allan, datblygu hyder a dangos gofal, parch a hoffter at blant eraill ac oedolion.

Addysg Grefyddol Byddwn yn sgwrsio am bethau sy'n arbennig i'r plant a hoff storïau'r plant. Byddwn yn edrych ar y Beibl a darllen

storiau megis Y Ddafad Golledig. Gawn ni hanes Mari Jones, Dewi Sant a thrafod symbolau'r Pasg. Bydd y plant yn dysgu am sgroliau'r Torah hefyd.